



**Gwneud penderfyniadau  
Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu  
Meddyliol Annibynnol**

# Gwneud penderfyniadau Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol

Helpu pobl sydd heb y gallu i wneud rhai  
penderfyniadau drostynt eu hun

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol a sefydlwyd gan Ddeddf Gallu Meddyliol. Nid yw'n God Ymarfer statudol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 ac nid yw'n arweiniad i'r modd y caiff y ddeddf ei chymhwyso mewn sefyllfaoedd penodol.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan:



Gweinyddiaeth  
**CYFIAWNDER**  
Ministry of  
**JUSTICE**

Swyddfa'r  
Gwarcheidwad  
Cyhoeddus

Office of the  
Public Guardian

**DH** *Departme.  
of Health*



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

---

Cafodd ei hysgrifennu gan:

**SpeakingUp**  
voice | action | change

## Diolchiadau

Y Rhaglen Weithredu Gallu Meddyliol (MCIP) gyhoeddodd y llyfryn hwn. Rhaglen ar y cyd gan y llywodraeth yw MCIP rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Iechyd, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydlwyd i roi'r drefn, y prosesau a'r gweithdrefnau ar waith ar gyfer lansio'r Ddeddf Gallu Meddyliol.

Sue Lee o Speaking Up a ysgrifennodd y llyfryn hwn. Rydym yn ddiolchgar iddi hi ac i weddill y tîm yn Speaking Up.

## Cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>6</b>
<b>2</b>	<b>Eiriolaeth?</b>	<b>7</b>
	Beth yw eiriolaeth?	7
	Pwy sydd ag angen eiriolaeth?	7
	Beth yw eiriolwr?	8
	Eiriolaeth heb gyfarwyddyd	8
<b>3</b>	<b>Gwasanaeth EGMAau</b>	<b>12</b>
	Pam y mae angen gwasanaeth EGMAau?	12
	Beth yw gallu meddyliol?	13
	A yw rhywun heb allu?	13
	Beth y mae EGMA yn ei wneud?	14
	Ar gyfer pwy y mae'r gwasanaeth EGMAau?	15
	Pryd nad oes angen cyfarwyddo EGMA?	16
	Beth yw ystyr 'bod heb unrhyw un arall sy'n barod ac yn alluog i ymgynghori'?	17
	Pwy sydd dan ddyletswydd i gyfarwyddo EGMAau?	18
	Pwy yw'r 'penderfynwr'?	19
<b>4</b>	<b>Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio</b>	<b>20</b>
	Pwy a ddylai gael ei atgyfeirio i wasanaeth EGMAau?	20
	Beth yw triniaeth feddygol sylweddol?	20
	Beth yw ystyr canlyniadau sylweddol?	21
	EGMAau a newidiadau o ran llety	23
	Beth yw symudiadau 'llety tymor hir'?	24
	Cynnwys EGMAau mewn achosion amddiffyn oedolion ac adolygiadau o ofal	25
	EGMAau a gweithdrefnau amddiffyn oedolion	25
	EGMAau ac adolygiadau o ofal	26
	Y broses atgyfeirio	28
	Cyfngiadau ar y gwasanaeth	30
	Beth fydd yn digwydd os yw rhywun sydd ag angen EGMA yn derbyn cyllid o'r tu allan i'r ardal y mae'n byw ynddi ar hyn o bryd?	31

<b>5</b>	<b>Sut mae EGMA yn gweithio</b>	<b>32</b>
	Pwy a gaiff fod yn EGMA?	32
	Sut y mae EGMAau yn gweithio?	32
	Prif elfennau gwaith yr EGMAau	34
	Cael gwybod dymuniadau, teimladau, gwerthoedd a chredoau'r person	34
	Cael gwybodaeth a'i gwerthuso	35
	Ystyried dulliau gweithredu amgen	36
	Cynrychioli a chefnogi'r person sydd heb allu	36
	Cael ail farn feddygol	37
	Archwilio'r broses benderfynu	37
	Rhoi gwybod am ddarganfyddiadau'r EGMA	38
	Sut y mae EGMAau yn herio penderfyniad?	38
<b>6</b>	<b>Cwynion</b>	<b>40</b>
	Beth i'w wneud os ydych yn anfodlon ar y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol	40
<b>7</b>	<b>Sut y caf wybod mwy?</b>	<b>41</b>
<b>8</b>	<b>Rhai cysylltiadau defnyddiol</b>	<b>42</b>

## 1. Cyflwyniad

Mae EGMA yn sefyll dros Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol.

Mae'r gwasanaeth EGMAau yn fath newydd o eiriolaeth statudol sydd wedi'i gyflwyno gan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i rai pobl sydd heb allu i gael cymorth gan EGMA.

Mae awdurdodau lleol wedi comisiynu gwasanaethau EGMAau yn Lloegr ac mae byrddau iechyd lleol (BILlau) wedi eu comisiynu yng Nghymru. Mae'r cyrff cyfrifol, sef y GIG a'r awdurdodau lleol, dan ddyletswydd i sicrhau bod EGMAau ar gael i gynrychioli pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau penodol, felly bydd angen i staff cysylltiedig wybod pryd y mae'n rhaid i EGMA gymryd rhan.

Darperir gwasanaethau EGMAau gan gyrff sy'n annibynnol ar y GIG ac awdurdodau lleol.

Pwrpas y llyfryn hwn yw egluro:

- beth yw eiriolaeth;
- rôl EGMA;
- sut mae'r gwasanaeth EGMAau yn gweithio'n ymarferol;
- pwy a gaiff fudd o'r gwasanaeth EGMAau; a
- sut i atgyfeirio i'r gwasanaeth EGMAau.

## 2. Eiriolaeth

### Beth yw eiriolaeth?

Ystyr eirioli yw cymryd camau i helpu pobl i:

- fynegi eu barn a'u dymuniadau;
- sicrhau eu hawliau;
- cael cynrychiolaeth i'w buddiannau;
- cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau; a
- ymchwilio i ddewisiadau ac opsiynau.

Mae eiriolaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol.

Gall rymuso pobl fel y byddant yn codi llais.

Mae eiriolaeth yn gallu helpu pobl i ddod yn fwy ymwybodol o'u hawliau eu hun, i arfer yr hawliau hynny a chymryd rhan mewn penderfyniadau am eu dyfodol a dylanwadu ar y penderfyniadau hynny.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen i eiriolwr sefyll dros fuddiannau rhywun arall. Eiriolaeth heb gyfarwyddyd yw'r enw ar hyn ac mae'n cael ei defnyddio pan na fydd rhywun yn gallu rhoi gwybod am ei farn.

### Pwy sydd ag angen eiriolaeth?

Unrhyw un sydd ag angen cymorth i:

- wneud newidiadau a chael rheolaeth ar ei fywyd;
- cael ei werthfawrogi a'i gynnwys yn ei gymuned; a
- cael gwrandawriad a chael ei ddeall.

Er enghraifft, gallai rhywun sy'n defnyddio gwasanaeth eirioli fod yn un sydd ag anhawster dysgu neu'n rhywun hŷn sydd â demensia.

## Beth yw eiriolwr?

Mae eiriolwr yn un sy'n cefnogi rhywun fel y caiff wrandawriad i'w farn ac fel y cynhelir ei hawliau.

Gall helpu rhywun i gyfleu ei farn a'i deimladau pan wneir penderfyniadau am ei fywyd.

Gall roi cymorth a fydd yn galluogi rhywun i wneud dewisiadau a bydd yn rhoi gwybod i bobl am eu hawliau.

Bydd eiriolwr yn helpu rhywun i godi llais drosto'i hun neu, mewn rhai sefyllfaoedd, bydd yn siarad ar ran rhywun.

Mae eiriolwyr yn annibynnol. Nid ydynt yn gysylltiedig â'r cyrff gofalu nac â'r gwasanaethau sy'n ymwneud â rhoi cymorth i rywun.

Mae eiriolwr yn gweithio gydag un person i ennyn hyder ynddo os oes modd a bydd yn ceisio sicrhau bod y person hwnnw'n teimlo ei fod wedi'i rymuso i'r graddau mwyaf posibl i gael rheolaeth ar ei fywyd ei hun.

## Eiriolaeth heb gyfarwyddyd

Mae'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr gwasanaethau sydd yn defnyddio'r gwasanaeth EGMAau yn rhai sydd ag anableddau dysgu, yn bobl hŷn sydd â demensia, yn rhai a gafodd anaf i'w hymennydd neu'n bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ond caiff EGMAau weithredu hefyd pan fydd pobl â diffyg gallu dros dro am eu bod yn anymwybodol neu bron iawn yn anymwybodol, boed hynny oherwydd damwain, am eu bod dan effaith anesthetig neu o ganlyniad i gyflyrau eraill.

Mae llawer ohonynt yn profi rhwystrau sylweddol rhag cyfathrebu ac ni yn methu â chyfarwyddo'r eiriolwr eu hunain. Yn ogystal â hynny, mae'n debygol y bydd llawer o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth heb y gallu i fynegi barn am y penderfyniad arfaethedig.

Mae eiriolwr sydd heb ei gyfarwyddo bob amser yn ceisio cael gwybod am y dull cyfathrebu sydd orau gan rywun ac yn treulio amser yn darganfod a yw rhywun yn gallu mynegi barn a sut y mae'n cyfathrebu. Mae gan EGMAau brofiad o weithio gyda phobl sydd ag anawsterau cyfathrebu.

Os nad yw'r person yn gallu rhoi gwybod am ei farn a'i ddymuniadau mewn cysylltiad â'r penderfyniad sydd i'w wneud, mae eiriolwr yn defnyddio [eiriolaeth heb gyfarwyddyd](#).

“Ystyr eirioli heb gyfarwyddyd yw cymryd camau cadarnhaol gyda rhywun neu ar ei ran os nad yw'n gallu dangos yn glir beth yw ei farn neu ei ddymuniadau mewn sefyllfa benodol. Bydd eiriolwr sydd heb ei gyfarwyddo'n ceisio cynnal hawliau'r person; yn sicrhau triniaeth a mynediad i wasanaethau ar sail deg a chyfartal; ac yn sicrhau y rhoddir sylw dyladwy i'w ddymuniadau a'i safbwyntiau unigryw wrth wneud penderfyniadau” Action for Advocacy 2006

#### **Prif egwyddorion eiriolaeth heb gyfarwyddyd yw:**

- Ni fydd y cleient yn cyfarwyddo'r eiriolwr.
- Mae'r eirioli'n annibynnol ac yn wrthrychol.
- Mae hawl gan bobl sy'n profi anawsterau wrth gyfathrebu i gael eu cynrychioli mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd.
- Bydd yr eiriolwr yn amddiffyn yr egwyddorion sy'n sail i fywyd arferol sy'n rhagdybio bod gan bawb hawl i fywyd o ansawdd da.

Mae'r eiriolwr yn defnyddio nifer o ddulliau wrth ymgymryd ag eiriolaeth heb gyfarwyddyd. Dyfeisiwyd dull y 'Briff Gwylio' gan ASIST, sy'n gorff eirioli, a gellir ei ddefnyddio pan na fydd rhywun yn gallu rhoi gwybod am ei farn – a'r eiriolwr felly'n methu â darganfod ei ddymuniadau.

Mae'n cyflwyno proses lle gall yr eiriolwr ofyn sut y bydd agweddau penodol ar fywyd rhywun yn cael eu gwella neu eu gwaethygu gan y penderfyniad arfaethedig. Mae'r broses yn amddiffyn neu'n sefyll dros egwyddorion bywyd arferol ac yn gweithio ar y sail bod gan bob bod dynol hawl i gael bywyd o ansawdd da. Mae'n nodi naw maes ansawdd bywyd y bydd yr eiriolwr yn eu defnyddio fel sail i ofyn cwestiynau i bwy bynnag sy'n bwriadu gwneud penderfyniad. Ni fydd yr eiriolwr yn cynnig barn nac yn mynegi safbwynt am ddull gweithredu penodol.

Mae cryfder y dull gweithredu hwn yn perthyn i'r ffaith ei fod yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau'n meddwl am y rheswm dros wneud penderfyniad penodol ac yn cyfiawnhau'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnig. Mewn geiriau eraill, mae gofyn y cwestiwn 'pam?' yn gallu bod yn beth grymus iawn. Bydd yr eiriolwr yn ymchwilio i'r broses y mae cyrff darparu yn ei defnyddio i ddod i benderfyniad.

Mae'r eiriolwr yn mynd i gyfarfodydd ar ran rhywun ac yn ystyried unrhyw benderfyniadau arfaethedig i sicrhau:

- bod yr holl ddewisiadau wedi'u hystyried;
- os gellir canfod beth yw hoff bethau a chas bethau'r person dan sylw, bod y rhain yn cael eu hystyried;
- nad oes unrhyw ffyrdd o weithredu sydd wedi'u pennu ymlaen llaw; a
- bod hawliau sifil, dynol a lles y person dan sylw yn cael eu parchu.

## Enghraifft

Roedd Emma, sy'n fenyw 40 mlwydd oed sydd ag anghenion cymorth uchel, wedi byw gartref gyda'i thad nes iddo farw'n sydyn. Roedd angen penderfynu ynghylch lle y byddai Emma yn byw yn y dyfodol ac atgyfeiriwyd yr achos i sylw'r gwasanaeth EGMAau. Cyfarfu'r EGMA â gweithiwr cymdeithasol Emma a dywedwyd wrtho nad oes ganddi unrhyw iaith lafar, nad yw'n gallu defnyddio iaith arwyddion a bod ei dulliau cyfathrebu'n gyfyngedig iawn. Cyfarfu'r EGMA ag Emma a chael nad oedd yn bosibl cael ei barn am ei llety yn y dyfodol. Defnyddiodd yr EGMA eiriolaeth heb gyfarwyddyd ar ôl hynny.

**Nid** eiriolaeth y budd gorau yw eiriolaeth EGMAau. Ni fydd yr eiriolwr yn cynnig ei farn ei hun nac yn gwneud penderfyniad.

### 3. Gwasanaeth EGMAau

#### Pam y mae angen gwasanaeth EGMAau?

Yn y gorffennol, mae'n bosibl bod llawer o bobl a oedd heb allu i wneud penderfyniadau drostynt eu hun heb gael gwrandawriad. Mae EGMAau'n diogelu hawliau'r rhai sydd heb unrhyw un arall i siarad ar eu rhan.

#### **Buddion gwasanaeth EGMAau**

Y prif fuddion i'r person sydd heb allu yw:

- bod â rhywun annibynnol i adolygu penderfyniadau pwysig;
- bod ag eiriolwr sy'n wybodus ac yn siarad yn glir, nid yn unig mewn cysylltiad â'r Ddeddf ond hefyd ynghylch hawliau rhywun, systemau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfraith gofal yn y gymuned;
- cael cymorth gan rywun sy'n fedrus o ran helpu pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu i roi gwybod am eu barn; a
- bod â rhywun annibynnol sy'n gallu ei gefnogi a'i gynrychioli pan wneir rhai penderfyniadau pwysig os nad oes ganddo unrhyw un arall y gall ymgynghori ag ef.

Mae buddion hefyd i gyrff sy'n gwneud penderfyniadau gan ei bod yn bosibl y bydd ymarferwyr sy'n gweithio yn y cyrff hynny yn cael bod:

- dull cydweithredol yr EGMAau yn peri i ymarferwyr gael cymorth yn eu prosesau penderfynu gan rywun sydd â gwybodaeth dda am y Ddeddf;
- yr wybodaeth y mae'r EGMA yn ei dwyn i sylw'r penderfynwr yn ddefnyddiol iawn ac y bydd yn aml yn arbed amser gwerthfawr i'r ymarferwr; a

- modd gwneud penderfyniadau cymhleth yn fwy hyderus ac, mewn llawer o achosion, yn gyflymach am fod EGMA yn gysylltiedig.

(Yn seiliedig ar Werthusiad o gynlluniau peilot y gwasanaeth EGMAu gan Brifysgol Caergrawnt.)

## Beth yw gallu meddyliol?

Gallu meddyliol yw'r gallu i wneud penderfyniad.

Mae'r Ddeddf yn cwmpasu sefyllfaoedd lle mae rhywun yn analluog i wneud penderfyniad am fod gweithrediad ei feddwl neu ei ymennydd dan effaith salwch, er enghraifft, neu anabledd. Gallai'r diffyg gallu ddigwydd dros dro am ei fod yn anymwybodol neu bron yn anymwybodol, boed hynny oherwydd damwain, bod dan effaith anesthetig neu o ganlyniad i gyflyrau eraill fel effeithiau cyffuriau neu alcohol. Mae'n cynnwys penderfyniadau pob dydd fel rhai am yr hyn i'w wisgo neu ba bryd i gael bath a phenderfyniadau pwysicach fel rhai am le i fyw.

## A yw rhywun heb allu?

Mae Deddf Gallu Meddyliol yn mynnu bod asesiadau o allu yn ymwneud â 'phenderfyniadau penodol'.

Mae unrhyw aelodau staff ac unrhyw ofalwyr di-dâl yn cael gwneud asesiadau o allu i wneud penderfyniadau syml – er enghraifft, a yw rhywun yn gallu penderfynu beth i'w wisgo neu ei fwyta – a dylent wneud hynny. Wrth gwrs, mwyaf pwysig yw'r penderfyniad, mwyaf ffurfiol y dylai'r asesiad o allu fod.

Caiff llawer o staff wneud asesiadau ynghylch a ddylid atgyfeirio achos i sylw EGMA drwy ofyn y cwestiynau canlynol.

Wrth wneud asesiad, pennir bod rhywun heb allu i wneud penderfyniad, a bod arno angen cymorth gan EGMA, os na fydd yn gallu gwneud un neu ragor o'r canlynol:

- deall gwybodaeth a roddwyd iddo am y penderfyniad;
- cofio'r wybodaeth yn ddigon hir i wneud y penderfyniad;
- defnyddio neu bwysu a mesur yr wybodaeth fel rhan o'r broses benderfynu; a
- rhoi gwybod am ei benderfyniad (drwy unrhyw fodd, e.e. siarad, iaith arwyddion neu smicio'r llygad).

Rhaid i'r asesiad ymwneud yn benodol â'r penderfyniad y mae angen ei wneud, er enghraifft, ac nid yw'n brawf cyffredinol am allu. Bydd penderfyniadau am gofnodi asesiadau o'r fath neu beidio, a'r dull o wneud hynny, yn amrywio yn ôl pwysigrwydd y penderfyniad sydd i'w wneud. Dylid cyfarwyddo EGMA yn achos y penderfyniadau penodol sydd wedi'u nodi isod.

### Beth y mae EGMA yn ei wneud?

Bydd EGMA yn diogelu hawliau pobl sydd:

- yn wynebu penderfyniad am symudiad tymor hir neu am driniaeth feddygol sylweddol;
- heb allu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud; a
- heb unrhyw un arall sy'n barod ac yn alluog i'w gynrychioli neu i ymgynghori yn y broses o ganfod beth sydd er y budd gorau iddo, heblaw staff cyflogedig.

Mae rheoliadau dan Ddeddf Gallu Meddyliol yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a chyrrff GIG i gynnwys EGMAau mewn penderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag:

- adolygiad o ofal; a
- gweithdrefnau amddiffyn oedolion (hyd yn oed mewn

sefyllfaoedd lle y mae aelodau o'r teulu neu ffrindiau y gellir ymgynghori â nhw).

Mae EGMAau yn annibynnol ac fel arfer byddant yn gweithio i ddarparwyr gwasanaethau eirioli sydd heb fod yn rhan o awdurdod lleol neu'r GIG.

### Ar gyfer pwy y mae'r gwasanaeth EGMAau?

Darperir y gwasanaeth EGMAau i unrhyw berson 16 mlwydd oed neu'n hŷn, sydd heb unrhyw un sy'n gallu ei gefnogi a'i gynrychioli, ac sydd heb allu i wneud penderfyniad am unrhyw rai o'r canlynol:

- symudiad gofal tymor hir;
- triniaeth feddygol sylweddol;
- gweithdrefnau amddiffyn oedolion; neu
- adolygiad o ofal.

Bydd cyflwr gan berson o'r fath sy'n effeithio ar ei allu i wneud penderfyniadau.

Mae llawer o ffactorau sy'n gallu effeithio ar allu rhywun fel:

- anaf a gafwyd i'r ymennydd;
- anabledd dysgu;
- salwch meddwl;
- demensia; ac
- effeithiau camddefnyddio alcohol neu gyffuriau.

Mae mathau eraill o salwch, trawma a ffactorau eraill yn gallu effeithio ar allu.

Mae gallu rhywun yn gallu amrywio dros amser neu gall ddibynnu ar y math o benderfyniad y mae angen ei wneud.

Dylai EGMAau fod ar gael i bobl sydd yn y carchar, mewn hostelau ac yn byw ar y stryd ac sydd heb allu i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol sylweddol neu lety tymor hir.

## Enghraifft

Mae Alan, dyn 32 flwydd oed sydd ag anawsterau dysgu ac awtistiaeth, yn byw mewn cartref gofal sy'n mynd i gau. Bydd angen i Alan symud i lety newydd.

Mae gweithiwr cymdeithasol Alan yn gwybod nad oes ganddo unrhyw aelodau o'i deulu na ffrindiau y gall ymgynghori â nhw am y penderfyniad. Mae'n credu bod Alan heb allu i ddeall y penderfyniad sydd i'w wneud ac mae'n cysylltu â'r gwasanaeth EGMAau lleol i atgyfeirio'r achos.

## Pryd nad oes angen cyfarwyddo EGMA?

Nid oes angen cyfarwyddo EGMA:

- os yw unigolyn sydd bellach heb allu i wneud penderfyniad wedi enwebu rhywun i ymgynghori ag ef/hi yn benodol ar yr un mater;
- os oes gan unigolyn Atwrnai lles personol sydd wedi'i awdurdodi'n benodol i wneud penderfyniadau ar yr un mater; neu
- os oes Dirprwy lles personol wedi'i benodi gan y Llys gyda phwerau i wneud penderfyniadau ar yr un mater.

Os nad oes gan unigolyn deulu neu ffrindiau i'w gynrychioli, ond bod ganddo Atwrnai neu Ddirprwy sydd wedi'i benodi i ddelio gydag eiddo neu faterion ariannol yn unig, mae'n rhaid cyfarwyddo EGMA.

Yn yr un modd, os oes gan yr unigolyn Atwrnai neu Ddirprwy lles personol nad yw wedi'i awdurdodi i wneud y penderfyniad penodol dan sylw, rhaid penodi EGMA.

## Beth yw ystyr 'bod heb unrhyw un arall sy'n barod ac yn alluog i ymgynghori?'

Mae'r EGMA yn amddiffyniad i'r bobl hynny sydd heb allu, nad oes ganddynt unrhyw un arall heblaw staff cyflogedig 'y byddai'n briodol ymgynghori â nhw' (ar wahân i achosion amddiffyn oedolion lle nad yw'r maen prawf hwn yn gymwys). Mae'r amddiffyniad hwn i'w ddefnyddio yn achos y bobl hynny sydd heb rwydwaith cymorth, fel aelodau agos o'r teulu neu ffrindiau, sy'n ymddiddori yn eu lles.

Mae angen i benderfynwyr yn y GIG a'r awdurdodau lleol ganfod a oes aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n barod ac yn alluog i ymgynghori ynghylch y penderfyniad arfaethedig. Os nad yw'n bosibl, yn ymarferol nac yn briodol ymgynghori â rhywun, dylid cyfarwyddo EGMA.

Mae'n bosibl y bydd ffrindiau neu aelodau o'r teulu gan yr un sydd heb allu ond bod gan y penderfynwr le i gredu na fydd yn ymarferol nac yn briodol ymgynghori â nhw.

### **Enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallai fod yn briodol cyfarwyddo EGMA.**

- Nid yw'r ffrind neu'r aelod o'r teulu'n barod i ymgynghori ynghylch y penderfyniad am y budd gorau.
- Mae'r ffrind neu'r aelod o'r teulu'n rhy sâl neu fregus.
- Mae'n anymarferol ymgynghori â'r ffrind neu'r aelod o'r teulu, er enghraifft, am ei fod yn byw'n rhy bell i ffwrdd.
- Gall ffrind neu aelod o'r teulu wrthod ymgynghori.
- Mae'r ffrind neu'r aelod o'r teulu'n ei gam-drin.

## Enghraifft

Roedd angen gwneud penderfyniad am lety yn y dyfodol ar gyfer dyn sydd â phroblemau iechyd meddwl sydd wedi aros fel claf gwirfoddol mewn ysbyty am nifer o flynyddoedd. Gwnaed asesiad a chafwyd ei fod heb allu i wneud y penderfyniad penodol hwnnw ac roedd y rheolwr gofal yn ansicr a oedd yn gymwys i gael y gwasanaeth EGMAau gan fod ei fam wedi'i henwi fel y perthynas agosaf. Ar ôl ymchwilio ymhellach, cafodd fod mam y dyn yn oedrannus, bod ganddi hithau broblemau iechyd meddwl, ei bod yn sâl ar y pryd, ac nad oedd wedi bod mewn cysylltiad o gwbl â'i mab ers dwy flynedd. O ganlyniad, penderfynodd nad oedd unrhyw un a allai gefnogi a chynrychioli'r dyn ac atgyfeiriodd yr achos i'r gwasanaeth EGMAau.

Os bydd eiriolwr eisoes gan rywun sydd heb allu meddyliol, mae'n bosibl y bydd ganddo hawl i gael EGMA er hynny, a byddai'r EGMA yn ymgynghori â'r eiriolwr hwnnw.

## Pryd fydd y gwasanaeth EGMAau ar gael?

Bydd y gwasanaeth ar gael 52 o wythnosau'r flwyddyn, yn ystod oriau swyddfa, heb gynnwys gwyliau cyhoeddus a phenwythnosau.

## Pwy sydd dan ddyletswydd i gyfarwyddo EGMAau?

Mae staff yn y GIG neu'r Awdurdod Lleol, er enghraifft, meddygon, rheolwyr gofal a gweithwyr cymdeithasol, i gyd dan ddyletswydd dan Ddeddf Gallu Meddyliol i gyfarwyddo EGMA os yw'r meini prawf cymhwysedd wedi'u bodloni.

## Pwy yw'r 'penderfynwr'?

Y penderfynwr yw'r person sy'n bwriadu cymryd camau mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth oedolyn sydd heb allu, neu'n ystyried gwneud penderfyniad ar ran y person hwnnw. Amgylchiadau'r person a'r math o benderfyniad fydd yn pennu pwy yw'r penderfynwr. Er enghraifft, gallai'r penderfynwr fod yn rheolwr gofal neu'n feddyg ymgynghorol mewn ysbyty.

Os yw staff sy'n gweithio mewn cyrff statudol, yn yr Awdurdod Lleol neu'r GIG yn ymwneud â phenderfyniadau 'er y budd gorau', dylent wybod dan ba amgylchiadau y mae gan rywun hawl i gael EGMA a phryd y maent dan ddyletswydd i gyfarwyddo EGMA.

## 4. Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio

### Pwy a ddylai gael ei atgyfeirio i wasanaeth EGMAau?

Os yw rhywun yn bodloni'r meini prawf canlynol, rhaid ei atgyfeirio i'r gwasanaeth EGMAau.

- A wneir penderfyniad am [driniaeth feddygol sylweddol](#) neu [newid llety](#); neu adolygiad o ofal neu [weithdrefnau amddiffyn oedolion](#)? (Bydd polisi gan yr Awdurdod Lleol ar adolygiadau o ofal ac amddiffyn oedolion)
- A yw'r person heb allu i wneud y penderfyniad penodol hwn?
- A yw'r person dros 16 mlwydd oed?
- A oes unrhyw un (heblaw staff cyflogedig sy'n darparu gofal neu weithwyr proffesiynol) y mae'r penderfynwr yn ystyried ei fod yn barod ac yn alluog i ymgynghori ynghylch y penderfyniad? (Nid yw hyn yn gymwys i achosion amddiffyn oedolion.)

### Beth yw triniaeth feddygol sylweddol?

Rhaid i gyrff GIG gyfarwyddo EGMA, ac ystyried gwybodaeth y maent yn ei chael ganddo wedyn, os bwriedir gwneud penderfyniadau am 'driniaeth feddygol sylweddol', os yw'r person heb allu i wneud y penderfyniad ac os nad oes unrhyw aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n barod ac yn alluog i roi cymorth i'r person dan sylw

Triniaeth feddygol sylweddol yw hynny sy'n ymwneud â:

- rhoi triniaeth newydd;
- atal triniaeth sydd eisoes wedi dechrau; neu
- gwrthod rhoi triniaeth y gellid ei chynnig.

Ac un ai bod:

- a gwahaniaeth main iawn wrth bwysu a mesur y buddion a'r beichiau a'r peryglon sydd ynglŷn ag un driniaeth;
- b gwahaniaeth main iawn wrth gymharu gwahanol driniaethau; neu
- c bod canlyniadau sylweddol yn debygol o godi mewn cysylltiad â'r hyn a gynigir.

Mae gan berson hawl i gael EGMA os yw triniaeth o'r fath yn cael ei hystyried ar ei ran ac os cafwyd drwy asesiad fod y person hwnnw heb allu i wneud y penderfyniad drosto'i hun ar y pryd.

Ni ellir dod ag EGMA i gysylltiad os yw'r driniaeth arfaethedig ar gyfer anhwylder meddwl a bod y driniaeth honno wedi'i hawdurdodi dan Ran IV o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Fodd bynnag, os yw rhywun yn cael ei drin dan Ddeddf Iechyd Meddwl ac os yw'r driniaeth arfaethedig ar gyfer salwch corfforol, er enghraifft, cancer, gellid dod ag EGMA i gysylltiad.

### Enghraifft

Roedd William, a oedd wedi'i gadw dan Adran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl, wedi cael gwaeledd corfforol ac roedd profion diagnostig wedi dangos bod cancer arno. Cafwyd drwy ei asesu ei fod heb allu i wneud penderfyniad am y gwahanol ddewisiadau o ran triniaeth ac nid oedd ganddo unrhyw un y gellid ymgynghori ag ef ynghylch y penderfyniad. O ganlyniad i hynny, atgyfeiriwyd yr achos i EGMA.

### Beth yw ystyr canlyniadau sylweddol?

Mae'r term 'canlyniadau sylweddol' yn cyfeirio at rai a allai gael effaith sylweddol ar y person. Mae'n cynnwys triniaethau sydd:

- yn achosi poen sylweddol dros gyfnod hir, gofid neu sgîl-ffeithiau

- yn codi'r posibilrwydd o ganlyniadau sylweddol i'r claf (er enghraifft, llawdriniaeth helaeth neu atal triniaeth sy'n cynnal bywyd); ac
- yn cael effaith sylweddol ar ddewisiadau'r claf yn ei fywyd yn y dyfodol (er enghraifft, ymyriadau i drin canser yr ofariau).

### Enghraifft

Cafodd Peter ei dderbyn i'r ysbyty ar ôl cael codwm yn y cartref nyrso. Roedd ganddo ddemensia yn ei gyfnod olaf ac, er ei bod yn amlwg ei fod mewn poen, nid oedd yn gallu dweud wrth staff yr ysbyty ym mhle'r oedd y poen. Drwy archwilio, cafwyd bod ei glun wedi torri ac roedd yn rhaid gwneud penderfyniad am driniaeth. Fodd bynnag, roedd heb allu i gydsynio neu wrthod triniaeth feddygol. Penodwyd EGMA.

Yr unig sefyllfa lle nad oes angen dilyn y ddyletswydd dan y Ddeddf i gyfarwyddo EGMA yw un lle mae angen gwneud penderfyniad ar **frys**, er enghraifft, i achub bywyd rhywun. Fodd bynnag, os ceir triniaeth sylweddol bellach ar ôl sefyllfa frys, bydd angen cyfarwyddo EGMA.

Ni ellir cynnwys yn y diffiniad o 'driniaeth feddygol sylweddol' driniaeth sydd wedi'i rheoleiddio gan Ran 4 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ar gyfer cleifion sydd wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).

Sut mae EGMAu yn gweithio mewn cysylltiad â phenderfyniadau ar driniaeth feddygol sylweddol?

Bydd yr EGMA:

- yn cadarnhau a yw egwyddor y budd gorau wedi'i dilyn
- yn sicrhau bod dymuniadau a theimladau'r person wedi'u hystyried; ac
- yn ceisio ail farn feddygol os oes angen.

## EGMAau a newidiadau o ran llety

Rhaid i'r awdurdod lleol neu'r GIG gyfarwyddo EGMA os bwriedir gwneud penderfyniadau am symud rhywun i lety neu newid llety os yw'r person heb allu i wneud y penderfyniad ac os nad oes unrhyw aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n barod ac yn alluog i gefnogi'r person hwnnw.

Mae'r hawl i gael EGMA yn gymwys os gwneir penderfyniadau am symudiadau o ran llety dros y tymor hir i ysbyty neu gartref gofal neu o'r manau hynny neu symudiadau rhwng y mathau hynny o lety:

- os yw wedi'i ddarparu neu ei drefnu gan y GIG;
- os yw wedi'i ddarparu dan adran 21 neu 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol; neu
- os yw'n rhan o'r gwasanaethau ôl-ofal sydd wedi'u darparu dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 - yn dilyn penderfyniad a wnaed dan adran 47 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990.

### Enghraifft

Roedd Bert, dyn yn ei 80au, wedi cael strôc pan oedd gartref. Arweiniodd hyn at arhosiad mewn ysbyty dros lawer o wythnosau ac roedd bellach yn barod i gael ei ryddhau. Roedd Bert wedi byw'n annibynnol erioed nes iddo fynd yn sâl ond erbyn hyn roedd ei gyflwr yn peri pryder mawr i'w weithiwr cymdeithasol wrth iddi ystyried a fyddai er y budd gorau iddo ddychwelyd i'w gyn-gartref. Wedi i'r gweithiwr cymdeithasol wneud asesiad o'i allu i wneud y penderfyniad a holi ynghylch unrhyw aelodau o'r teulu neu ffrindiau y gellid ymgynghori â nhw am y penderfyniad, atgyfeiriodd yr achos i EGMA.

## Beth yw symudiadau 'llety tymor hir'?

Mae hyn yn berthnasol os yw un o gyrrff y GIG neu Awdurdod Lleol yn penderfynu lleoli rhywun sydd heb allu:

- mewn ysbyty – neu ei symud i ysbyty arall – i aros am gyfnod sy'n debygol o fod yn hwy nag 28 niwrnod; neu
- mewn llety preswyl i aros am gyfnod sy'n debygol o fod yn hwy nag wyth wythnos.

Mae hyn yn berthnasol i lety tymor hir mewn ysbyty neu gartref gofal, neu symudiadau rhwng y mathau hynny o lety. Gallai fod yn llety mewn cartref gofal neu gartref nyrsio, mewn tai cyffredin neu dai gwarchod, mewn tai o eiddo cymdeithasau tai neu tai cymdeithasol cofrestredig arall, neu dai yn y sector preifat sydd wedi'u darparu gan Awdurdod Lleol neu mewn hostel.

Os yw'r lleoliad neu'r symudiad yn un **brys**, nid oes raid cyfarwyddo EGMA, ond rhaid i'r penderfynwr gynnwys EGMA cyn gynted ag y bo modd ar ôl gwneud penderfyniad brys os yw rhywun yn debygol o aros mewn ysbyty am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau neu gyfnod o fwy nag wyth wythnos mewn llety arall.

Nid oes unrhyw ddyletswydd i gynnwys EGMA os yw'n ofynnol i'r person aros yn y llety dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

## Cynnwys EGMAau mewn achosion amddiffyn oedolion ac adolygiadau o ofal

Os yw rhywun yn bodloni'r meini prawf i gael EGMA, mae Awdurdodau Lleol a'r GIG dan ddyletswydd i gyfarwyddo EGMA os ceir penderfyniadau ynghylch newid llety a thriniaeth feddygol sylweddol. Yn achos adolygiadau o ofal a gweithdrefnau amddiffyn oedolion, mae pwerau gan Awdurdodau Lleol a'r GIG i benodi EGMA os ydynt o'r farn y byddai ei benodi'n dod â budd penodol i'r person dan sylw.

Dylai awdurdodau lleol yn Lloegr fod â pholisi ar y dull o gynnwys EGMAau mewn adolygiadau o ofal a gweithdrefnau amddiffyn oedolion.

Bydd gofyniad tebyg i gyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru fod â pholisi o'r fath.

## EGMAau a gweithdrefnau amddiffyn oedolion

Mae pwerau gan Awdurdodau Lleol a'r GIG i gyfarwyddo EGMA i gefnogi a chynrychioli rhywun sydd heb allu:

- os honnir bod y person hwnnw'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu ei fod wedi'i gam-drin neu ei esgeuluso, gan berson arall; neu
- os honnir bod y person yn cam-drin neu wedi cam-drin person arall.

Ni fydd Awdurdodau Lleol a'r GIG ond yn cael cyfarwyddo EGMA os ydynt yn bwriadu cymryd, neu os ydynt eisoes wedi cymryd, mesurau amddiffyn. Mae hyn yn unol â gweithdrefnau amddiffyn oedolion sydd wedi'u creu gan ddilyn canllawiau statudol. Y canllawiau a gyhoeddwyd yw: ar gyfer Lloegr - No secrets: Guidance on developing and implementing multi-agency policies and procedures to protect vulnerable adults from abuse ([www.dh.gov.uk](http://www.dh.gov.uk)): ar gyfer Cymru - Mewn dwylo diogel ([www.ssiacymru.org.uk](http://www.ssiacymru.org.uk)).

Mewn achosion amddiffyn oedolion, nid yw mynediad at EGMAau yn gyfyngedig i bobl sydd heb unrhyw un arall i'w cefnogi neu eu cynrychioli. Mae rhai heb allu sydd ag aelodau o'u teulu a ffrindiau yn dal i fod â hawl i gael EGMA i'w cefnogi mewn gweithdrefnau amddiffyn oedolion. Rhaid i'r penderfynwr fod wedi'i fodloni y bydd y person hwnnw'n cael budd o fod ag EGMA.

### Enghraifft

Roedd menyw ifanc sydd ag anabledd dysgu yn byw gartref gyda'i theulu. Roedd ei rheolwr gofal wedi cael tystiolaeth nad oedd ei hanghenion yn cael eu diwallu a'i bod mewn perygl difrifol o gael ei niweidio a'i hesgeuluso ac roedd ganddo bryderon mawr o ganlyniad i hynny. Atgyfeiriodd y rheolwr gofal yr achos i'r gwasanaeth EGMAau a chafodd EGMA ei gyfarwyddo i gefnogi a chynrychioli'r fenyw honno drwy gydol yr achos amddiffyn oedolion.

### EGMAau ac adolygiadau o ofal

Caiff corff cyfrifol gyfarwyddo EGMA i gefnogi a chynrychioli rhywun sydd heb allu:

- os yw wedi trefnu llety ar gyfer y person hwnnw
- os yw'n bwriadu adolygu'r trefniadau (fel rhan o gynllun gofal neu fel arall); neu
- os nad oes unrhyw aelodau o'i deulu neu ffrindiau y byddai'n briodol ymgynghori â nhw.

Dylai'r adolygiadau fod yn rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau am lety:

- i rywun sydd heb allu, i wneud penderfyniad am lety
- a gaiff ei ddarparu am gyfnod di-dor o fwy na 12 wythnos ac a drefnwyd gan Awdurdod Lleol/y GIG

- nad ydynt yn ganlyniad i rwymedigaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; ac
- nad ydynt yn ymwneud ag amgylchiadau lle byddai adrannau 37 i 39 o'r Ddeddf yn gymwys.

### Enghraifft

Roedd dyn sydd yn ei 70au ac sydd â demensia wedi'i leoli mewn cartref gofal ar ôl aros am gyfnod hir mewn ysbyty. Roedd ei reolwr gofal wedi gwneud penderfyniad ar sail y budd gorau iddo a oedd yn annerbyniol i'w deulu ac roeddent wedi gwneud cais am iddo adael y cartref gofal, gan ddweud y gallent fynd ag ef oddi yno. Oherwydd pryderon sylweddol ynghylch diogelwch y dyn, cynhaliwyd cyfarfod strategaeth amddiffyn oedolion a chafodd EGMA ei gyfarwyddo. Cyn mynd i'r adolygiad o ofal, cyfarfu'r EGMA â'r dyn a nododd ef yn bendant ei fod yn fodlon ac nad oedd yn dymuno gadael y cartref gofal. Roedd yr EGMA yn gallu rhoi gwybod am farn a dymuniadau'r dyn yng nghyfarfod yr adolygiad o ofal.

Os yw rhywun i'w gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu os yw'n ofynnol iddo fyw mewn llety dan y ddeddf honno, ni fydd angen EGMA gan y bydd y mesurau diogelu sydd ar gael dan Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys.

## Y broses atgyfeirio

Rhaid i staff sy'n gweithio mewn Awdurdodau Lleol neu yn y GIG allu canfod a oes hawl gan rywun i gael EGMA a gwybod sut i gyfarwyddo EGMA.

Y cam cyntaf yw cael gwybod pa gorff sydd wedi'i gomisiynu i ddarparu gwasanaeth EGMAu yn ardal yr Awdurdod Lleol neu'r Bwrdd Iechyd Lleol lle mae'r person dan sylw ar y pryd. Gellir cael yr wybodaeth honno gan yr Awdurdod Lleol neu gan ganolfannau gwybodaeth a chynghori fel y Gwasanaeth Cyswllt a Chyngor i Gleifion (PALS) neu'r ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) yn yr ardal neu gan Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru. Hefyd mae gan yr Adran Iechyd wefan Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol sy'n cynnwys manylion yr holl gyrf sy'n darparu gwasanaeth EGMAu.

Bydd trefniadau lleol ar waith gyda phob corff sy'n darparu gwasanaeth EGMAu ar gyfer dulliau o atgyfeirio. Gellir atgyfeirio achosion yn gyntaf dros y ffôn neu drwy'r e-bost.

Ar adeg yr atgyfeiriad, rhaid iddi fod yn amlwg:

- bod rhywun heb allu i wneud y penderfyniad dan sylw
- bod y penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth feddygol sylweddol; newid llety; adolygiad o ofal, neu achos amddiffyn oedolion; ac
- nad oes unrhyw un sy'n gallu cefnogi a chynrychioli'r person mewn modd priodol (nid yw hyn yn gymwys i achosion amddiffyn oedolion).

### **Bydd yr EGMA:**

- yn canfod pa ddull cyfathrebu sydd orau gan y person sydd wedi'i atgyfeirio;
- yn cwrdd â'r person sydd wedi'i atgyfeirio ac yn defnyddio amryw o ddulliau, fel y bo'n briodol, i gael ei farn;
- yn ymgynghori â staff, gweithwyr proffesiynol ac unrhyw un arall sy'n adnabod y person yn dda sy'n gysylltiedig â darparu gofal, cymorth a thriniaeth;
- yn casglu unrhyw ddogfennau ysgrifenedig perthnasol a gwybodaeth arall;
- yn ymbresenoli mewn cyfarfodydd i gynrychioli'r person gan godi materion a chwestiynau fel y bo'n briodol;
- yn cyflwyno gwybodaeth i'r penderfynwr ar lafar a thrwy adroddiad ysgrifenedig;
- yn parhau â'i gysylltiad hyd nes y gwneir penderfyniad a hyd nes y caiff wybod bod y cam gweithredu arfaethedig wedi'i gymryd;
- yn archwilio'r broses o benderfynu ar y budd gorau; ac
- yn herio'r penderfyniad os bydd angen.

## Cyfyngiadau ar y gwasanaeth

Ni chaiff EGMA fod yn gysylltiedig:

- os yw'r person yn meddu ar allu
- os yw'r driniaeth feddygol sylweddol arfaethedig wedi'i hawdurdodi dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a'i bod felly ar gyfer anhwylder meddyliol yn hytrach na chyflwr corfforol
- os yw'r newid tymor hir o ran llety yn ofyniad dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- os nad oes penderfyniad y gellir ei ganfod am newid tymor hir o ran llety neu driniaeth feddygol sylweddol neu benderfyniadau'n ymwneud ag adolygiad o ofal neu weithdrefnau amddiffyn oedolion
- os oes unrhyw un arall (nad yw'n gweithredu yn rhinwedd swydd gyflogedig) sy'n barod ac yn alluog i gefnogi a chynrychioli'n briodol y person sydd heb allu; neu
- os gwneir penderfyniadau am faterion ariannol rhywun, oni bai fod gweithdrefnau amddiffyn oedolion y mae EGMA yn gysylltiedig â nhw.

Bydd yr EGMA yn terfynu ei gysylltiad â'r achos ar ôl gorffen y penderfyniad a chael gwybod bod y cam gweithredu arfaethedig wedi'i gymryd. Ni fydd yn gallu rhoi cymorth parhaus i'r person fel eiriolwr. Os teimlir bod angen cymorth drwy eirioli ar rywun ar ôl i'r EGMA dynnu'n ôl, mae'n bosibl y bydd angen atgyfeirio'r achos i sylw corff eirioli lleol.

## Beth fydd yn digwydd os yw rhywun sydd ag angen EGMA yn derbyn cyllid o'r tu allan i'r ardal y mae'n byw ynddi ar hyn o bryd?

Bydd pob gwasanaeth EGMAu yn cwmpasu ardal Awdurdod Lleol, neu Fwrdd Iechyd Lleol, a rhaid atgyfeirio pawb sy'n gymwys yn yr ardal honno, pa un a ydynt yno'n barhaol neu dros dro, i'r gwasanaeth EGMAu lleol. Er enghraifft, os yw rhywun yn byw mewn cartref gofal yn Swydd Gaergrawnt ond bod Cyngor Sir Essex yn darparu'r cyllid ar gyfer y lleoliad hwnnw a bod angen atgyfeirio'r person hwnnw i sylw EGMA, gwasanaeth EGMAu Swydd Gaergrawnt a fydd yn darparu'r gwasanaeth.

### Enghraifft

Mae dyn sydd ag anabledd dysgu ac awtistiaeth yn cael cyllid gan y sir lle bu'n byw'n wreiddiol fel plentyn i fyw mewn cartref gofal mewn ardal wahanol. Mae'r cartref gofal yn cau ac mae angen dod o hyd i lety gwahanol. Mae rheolwr gofal o'r awdurdod sy'n ariannu'n ymwneud â'r achos, ac mae'n gwybod mai'r gwasanaeth EGMAu a ddarparwyd yn yr ardal lle y mae'r dyn yn byw'n awr yw'r un y dylid cysylltu ag ef.

## 5. Sut mae EGMA yn gweithio

### Pwy a gaiff fod yn EGMA?

Rhaid i EGMAau unigol:

- fod â phrofiad penodol (yn ymwneud â gweithio gyda phobl sydd ag angen cymorth i wneud penderfyniadau, profiad o eiriolaeth a phrofiad o systemau iechyd a gofal cymdeithasol);
- bod wedi'u hyfforddi i fod yn EGMA;
- meddu ar uniondeb a chymeriad da; a
- gallu gweithredu'n annibynnol.

Rhaid i'r holl EGMAau gwblhau hyfforddiant Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol er mwyn cael gweithio yn y capisiti hwnnw, a chael eu harchwilio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol drwy wiriadau manylach i ddangos nad oes unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Rhaid i EGMAau fod yn annibynnol ac ni chânt weithredu fel EGMA os ydynt yn ymwneud â thriniaeth neu ofal y person neu os oes ganddynt gysylltiadau â'r corff cyfrifol sy'n eu cyfarwyddo neu ag unrhyw un arall sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth y person, heblaw drwy eu gwaith fel eiriolwyr.

### Sut y mae EGMAau yn gweithio?

Rôl yr EGMA yw cefnogi a chynrychioli'r person sydd heb allu ac archwilio'r dull o wneud y penderfyniad. Ni fydd EGMAau yn gwneud y penderfyniad ar ran yr un y maent yn ei gynrychioli; gwneir y penderfyniad terfynol bob amser gan y penderfynwr.

Bydd yr EGMA:

- yn annibynnol ar y person sy'n gwneud y penderfyniad;
- yn rhoi cefnogaeth i'r un sydd heb allu;

- yn cynrychioli'r un sydd heb allu mewn unrhyw drafodaethau ar y penderfyniad arfaethedig;
- yn darparu gwybodaeth i helpu i ganfod beth sydd er y budd gorau i'r person; ac
- yn codi cwestiynau neu'n herio penderfyniadau nad ydynt yn ymddangos eu bod er y budd gorau i'r person dan sylw.

Mae'r gwasanaeth EGMA yn seilio ei waith ar arferion da yn y sector eiriolaeth annibynnol, er hynny mae rôl yr EGMAau yn wahanol i hynny sydd gan lawer o eiriolwyr eraill. Yn wahanol i rai eiriolwyr eraill, mae ganddynt hawliau a dyletswyddau dan Ddeddf Gallu Meddyliol i:

- ddarparu eiriolaeth statudol;
- cefnogi a chynrychioli pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau ar faterion penodol;
- cwrdd yn breifat â'r un y maent yn ei gefnogi;
- gweld cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol;
- cefnogi a chynrychioli'r person wrth wneud y penderfyniad ei hun; a
- gweithredu'n gyflym fel y gall eu hadroddiad terfynol fod yn rhan o'r broses benderfynu.

## Prif elfennau gwaith yr EGMAau

Mae pedair prif elfen yng ngwaith yr EGMAau a gellir eu disgrifio'n fyr:

- 1 Cael gwybod am farn, teimladau, dymuniadau, credoau a gwerthoedd y person dan sylw, gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau gan y cleient a sicrhau bod y farn honno'n cael ei chyfleu i'r penderfynwr a bod hwnnw'n ei hystyried.
- 2 Eiriolaeth heb gyfarwyddyd. Gofyn cwestiynau ar ran y person a'i gynrychioli. Sicrhau bod hawliau'r person yn cael eu cynnal a'i fod yn cael ei gynnwys drwy'r amser yn y broses benderfynu gan roi lle canolog iddo.
- 3 Ymchwilio i'r amgylchiadau. Casglu a gwerthuso gwybodaeth a gafwyd gan weithwyr proffesiynol perthnasol a phobl sy'n adnabod y person yn dda. Gwneud unrhyw ymchwil angenrheidiol sy'n ymwneud â'r penderfyniad.
- 4 Archwilio'r broses benderfynu. Gwirio bod y penderfynwr yn gweithredu'n unol â'r Ddeddf a bod y penderfyniad er y budd gorau i'r un dan sylw. Herio'r penderfyniad os oes angen.

## Cael gwybod beth yw dymuniadau, teimladau, gwerthoedd a chredoau'r person

Bydd EGMA yn ceisio cael gwybod beth yw dymuniadau a theimladau'r person a'i werthoedd a'i gredoau. Bydd yn darganfod pa ddull cyfathrebu sydd orau gan y person dan sylw a bydd yn brofiadol o ran cyfathrebu â rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu. Efallai y bydd y person dan sylw'n defnyddio iaith arwyddion, fel Makaton neu Iaith Arwyddion Prydain, neu efallai y bydd angen cyflwyno gwybodaeth drwy ddefnyddio lluniau neu ffotograffau.

Bydd EGMA yn siarad hefyd â'r staff neu unrhyw un sy'n adnabod y person yn dda a bydd yn archwilio copïau o gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol neu ddatganiadau ysgrifenedig a wnaeth y cleient pan oedd yn dal i fod â gallu i wneud hynny.

Os oes modd, dylai penderfynwyr wneud penderfyniadau ar sail dealltwriaeth lawn o ddymuniadau rhywun yn awr ac yn y gorffennol. Dylai EGMA roi cymaint ag y bo modd o'r wybodaeth honno i'r penderfynwr – ac unrhyw beth arall y mae'n credu ei fod yn berthnasol.

### Enghraifft

Roedd menyw ifanc sydd ag anawsterau dysgu'n byw mewn llety seibiant byr ar ôl gadael cartref y teulu a bellach mae angen dod o hyd i lety parhaol ar ei chyfer. Roedd yn gallu rhoi gwybod yn glir iawn i'r EGMA pa fath o lety a fyddai orau ganddi, gan fynegi dymuniad i gael amgylchedd tawel a gardd. Roedd yr EGMA yn gallu cefnogi'r person er mwyn cyfleu ei barn i'r rhai a fyddai'n gwneud y penderfyniad.

### Cael gwybodaeth a'i gwerthuso

Mae gan EGMAu hawl:

- i gwrdd yn breifat â'r un sydd heb allu; ac
- i archwilio a gwneud copïau o unrhyw gofnodion y mae'r un sy'n dal y cofnod yn credu ei fod yn berthnasol i'r penderfyniad ar yr hyn sydd er y budd gorau i'r person.

Caiff yr EGMA siarad hefyd â phobl eraill sy'n adnabod yr un sydd heb allu yn dda, neu'n ymwneud â rhoi gofal neu driniaeth iddo, a allai fod â gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad. Wrth ymchwilio i amgylchiadau'r cleient, bydd yr EGMA yn gallu casglu gwybodaeth i'w rhoi i'r penderfynwr.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd penderfyniad gan y penderfynwr ar yr hyn sydd er y budd gorau i rywun yn cael ei wneud drwy drafodaeth sy'n cynnwys yr holl bobl berthnasol sy'n rhoi gofal neu driniaeth, a hefyd drwy gynnwys yr EGMA.

### Ystyried dulliau gweithredu amgen

Mae'n rhaid i'r EGMA wirio a yw'r penderfynwr wedi ystyried yr holl ddewisiadau posibl ac ai'r dewis arfaethedig yw'r un a fyddai'n cyfyngu leiaf, yn ôl Deddf Gallu Meddyliol, ar ddewisiadau'r person yn y dyfodol neu'n caniatáu'r rhyddid mwyaf iddo. Caiff yr EGMA awgrymu dewisiadau eraill os oes tystiolaeth eu bod yn fwy cyson â dymuniadau a theimladau'r un sydd dan sylw.

### Cynrychioli a chefnogi'r person sydd heb allu

Dylai'r EGMA ddarganfod a yw'r person wedi cael cefnogaeth briodol i'w gynnwys i'r graddau mwyaf posibl yn y broses benderfynu.

Bydd yn ymbresenoli mewn cyfarfodydd i gynrychioli'r person a bydd yn defnyddio dulliau eiriolaeth heb gyfarwyddyd i ofyn cwestiynau am y penderfyniad arfaethedig. Bydd yr EGMA yn sicrhau y bydd y penderfynwr yn cael gwybod am farn, teimladau, gwerthoedd a dymuniadau'r person ac am unrhyw wybodaeth berthnasol arall fel ffactorau crefyddol a diwylliannol.

#### Enghraifft

Penodir EGMA ar gyfer penderfyniad am driniaeth feddygol sylweddol. Tra'n dilyn ei ymchwiliadau, mae'r EGMA yn darganfod bod y cleient yn Dyst Jehofa mewn gair a gweithred ac mae'n sylweddoli bod hynny'n ffactor pwysig y dylid ei ddwyn i sylw'r un sy'n cynnig y driniaeth.

Weithiau mae'n bosibl na fydd EGMA yn gallu gweld yn glir beth yw dymuniadau'r cleient. Er hynny, dylai ddal i geisio sicrhau bod y penderfynwr yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol drwy :

- godi materion a chwestiynau perthnasol; a
- rhoi gwybodaeth berthnasol ychwanegol i hwyluso'r penderfyniad terfynol.

### Cael ail farn feddygol

Mae gan yr EGMA yr hawl i geisio ail farn feddygol ar ran rhywun sydd heb allu pan wneir penderfyniad am driniaeth feddygol sylweddol. Mae hyn yn rhoi'r person sydd heb allu yn yr un sefyllfa â rhywun sy'n meddu ar allu sydd â hawl i ofyn am ail farn feddygol.

### Archwilio'r broses benderfynu

Drwy gydol y broses benderfynu bydd yr EGMA yn sicrhau:

- bod egwyddorion y Ddeddf yn cael eu dilyn;
- bod y cleient yn cael cymorth i gymryd rhan yn y broses benderfynu i'r graddau mwyaf posibl;
- bod y cleient ar ganol y broses;
- bod rhestr wirio'r budd gorau fel y mae wedi'i nodi yn adran 4 o'r Ddeddf yn cael ei dilyn;
- bod y penderfynwr yn rhoi rhesymau clir gwrthrychol dros wneud penderfyniad penodol am yr hyn sydd er y budd gorau i rywun; ac
- na fydd unrhyw un sy'n gwneud penderfyniad er y budd gorau i rywun sydd heb allu yn gwneud hynny ar sail rhagdybiaethau na ellir eu cyfiawnhau.

## Rhoi gwybod am ddarganfyddiadau'r EGMA

Rhan bwysig o rôl yr EGMA yw rhoi gwybod am ei ganlyniadau ac, yn aml, bydd angen deialog barhaus rhwng yr EGMA a'r penderfynwr.

Bydd yr EGMA yn cyflwyno adroddiad i'r penderfynwr sy'n rhoi manylion ei ymchwiliadau, gan roi cymaint o wybodaeth berthnasol ag y bo modd. Gall yr adroddiad gynnwys cwestiynau am y cam gweithredu arfaethedig neu gall gynnwys awgrymiadau am ddulliau gweithredu eraill os oes tystiolaeth y gallai'r rheini fod yn fwy cydnaws â dymuniadau a theimladau'r person dan sylw.

Rhaid i'r penderfynwr ystyried yr wybodaeth a gafodd gan yr EGMA wrth ganfod pa benderfyniad sydd er y budd gorau i'r un sydd heb allu.

Mae'n bosibl y ceir sefyllfaoedd weithiau lle bydd yr EGMA o'r farn nad yw'r penderfynwr wedi rhoi digon o sylw i'w adroddiad ac i'r wybodaeth berthnasol a lle bydd ganddo bryderon ynghylch y penderfyniad a wnaed. Efallai y bydd angen wedyn iddo herio'r penderfyniad.

## Sut y mae EGMAau yn herio penderfyniad?

Caiff yr EGMA ddefnyddio dulliau anffurfiol i ddechrau a chaiff ofyn am gael cyfarfod â'r penderfynwr i egluro unrhyw bryderon a gofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Os oes pryderon difrifol am y penderfyniad a wnaed, caiff yr EGMA benderfynu defnyddio dulliau ffurfiol i herio'r penderfyniad.

Rhai enghreifftiau o ddulliau ffurfiol yw:

- defnyddio'r weithdrefn gwyno berthnasol;
- atgyfeirio'r achos i'r Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol (ICAS);

- ymgynghori â'r Gwasanaeth Cyswllt a Chyngor i Gleifion (PALS) yn Lloegr neu Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru;
- cyfeirio'r achos i'r Llys Gwarchod; a
- chysylltu â'r Twrnai Swyddogol.

Mewn achosion arbennig o ddifrifol neu rai brys, caiff yr EGMA gysylltu â'r Twrnai Swyddogol neu geisio caniatâd i gyfeirio achos i'r Llys Gwarchod i gael penderfyniad. Os yw EGMA yn dymuno herio'r dull a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniad arbennig o bwysig, gall gymryd cyngor cyfreithiol er mwyn ystyried gwneud cais am adolygiad barnwrol.

## 6. Cwynion

### Beth i'w wneud os ydych yn anfodlon ar y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol

Yn y lle cyntaf, dylai'r un sy'n anfodlon ar y gwasanaeth gysylltu â'r EGMA sy'n darparu'r gwasanaeth neu ei reolwr. Os na ellir cael ateb drwy hynny, dylid dilyn polisi cwynion y corff sy'n darparu'r gwasanaeth EGMAu. Os bydd pryderon o hyd ar ôl hynny, efallai y bydd y person yn dymuno cysylltu â'r Awdurdod Lleol (neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru) sy'n gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaeth hwnnw.

## 7. Sut y caf wybod mwy?

Teitl	Ar gael o
Mwy o wybodaeth am y gwasanaeth EGMAau	<a href="http://www.dh.gov.uk/imca">www.dh.gov.uk/imca</a> ebost: <a href="mailto:imca@dh.gsi.gov.uk">imca@dh.gsi.gov.uk</a>
Gwybodaeth am Ddeddf Gallu Meddyliol 2005	<a href="http://www.publicguardian.gov.uk">www.publicguardian.gov.uk</a> T 0845 330 2900 E <a href="mailto:customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk">customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk</a>
Llyfrynnau gwybodaeth eraill fel hwn	Gallwch weld y rhain ar ffurf electronig drwy fynd i: <a href="http://www.publicguardian.gov.uk">www.publicguardian.gov.uk</a>
Deddf Gallu Meddyliol 2005	Gallwch ei gweld am ddim drwy fynd i: <a href="http://www.publicguardian.gov.uk">www.publicguardian.gov.uk</a> Gallwch archebu copi caled oddi wrth y Llyfrfa drwy alw 0870 600 5522 neu anfon neges e-bost i <a href="mailto:customerservices@tso.co.uk">customerservices@tso.co.uk</a> .
Y Cod Ymarfer ar gyfer Deddf Gallu Meddyliol	Gallwch ei lawrlwytho am ddim drwy fynd i: <a href="http://www.publicguardian.gov.uk">www.publicguardian.gov.uk</a> Gallwch archebu copi caled oddi wrth y Llyfrfa drwy alw 0870 600 5522 neu anfon neges e-bost i <a href="mailto:customerservices@tso.co.uk">customerservices@tso.co.uk</a>

## 8. Rhai cysylltiadau defnyddiol

Mae'r adrannau llywodraeth canlynol yn cydweithio i weithredu Deddf Gallu Meddyliol yn 2007

Adran	Ei phwrpas a'i gwaith	Manylion cysylltu
<b>Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC)</b>	Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cefnogi ac yn hyrwyddo gwneud penderfyniadau gan y rhai heb allu i wneud hynny neu a fyddai'n hoffi cynllunio ar gyfer eu dyfodol, o fewn fframwaith Deddf Gallu Meddyliol 2005	Archway Tower, 2 Junction Road, Llundain, N19 5SZ <a href="http://www.publicguardian.gov.uk">www.publicguardian.gov.uk</a> T 0845 330 2900 E <a href="mailto:customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk">customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk</a>
<b>Adran Iechyd (DH)</b>	Un o'i chyfrifoldebau yw pennu polisi iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae'r Adran yn gosod safonau ac yn hyrwyddo camau i foderneiddio pob rhan o'r GIG, gofal cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus	Wellington House, 133-155 Waterloo Road, Llundain, SE1 3UG <a href="http://www.dh.gov.uk">www.dh.gov.uk</a> T 020 7210 4850
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru</b>	Mae'n datblygu polisi ac yn cymeradwyo deddfwriaeth sy'n adlewyrchu anghenion pobl Cymru	Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ <a href="http://www.wales.gov.uk">www.wales.gov.uk</a> T 029 2082 5111

Mae'r cyrff canlynol yn darparu gwybodaeth am eiriolaeth a/neu'n darparu gwasanaethau eirioli

Corff	Ei bwrpas a'i waith	Manylion cysylltu
<b>Action for Advocacy</b>	Asiantaeth cymorth ac adnoddau ar gyfer y sector eiriolaeth; gwybodaeth, hyfforddiant a chynghor	PO Box 31856, Lorrimore Square, Llundain, SE17 3XR <a href="http://www.actionforadvocacy.org">www.actionforadvocacy.org</a>
<b>British institute of Learning Difficulties</b>	Mae'n gweithio gyda'r llywodraeth a chyrff eraill i wella bywydau pobl yn y DU sydd ag anabledd dysgu. Mae'n hyfforddi staff, gofalwyr teuluol a rhai sydd ag anabledd dysgu. Mae hefyd yn ariannu Speak Out, prosiect sy'n darparu gwasanaeth eirioli i oedolion sydd ag anableddau dysgu	Campion House, Green Street, Kidderminster, Worcestershire, DY19 1JL T 01562 723 010 <a href="http://www.bild.org.uk">www.bild.org.uk</a>
<b>Speaking Up</b>	Mae'n darparu gwasanaethau eirioli i bobl sy'n profi anawsterau dysgu, iechyd meddwl gwael ac anableddau eraill. Mae hefyd yn rhedeg cyrsiau a digwyddiadau gyda chyrff eraill sydd am ddeall a chynnwys pobl anabl ac ymgynghori â nhw	1a Fortescue Road, Cambridge, CB4 2JS T 01223 566258 F 01223 516638 E <a href="mailto:info@speakingup.org">info@speakingup.org</a> <a href="http://www.speakingup.org">www.speakingup.org</a>

Gwneud penderfyniadau



Mae'r llyfrynau eraill sydd yn y gyfres hon yn cynnwys:

- OPG601** Gwneud penderfyniadau...ynglyn â'ch iechyd, eich lles neu'ch arian. Pwy fydd yn penderfynu pan fyddwch chi'n methu
- OPG602** Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i deuluoedd, ffrindiau a gofawyr di-dâl eraill
- OPG603** Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- OPG604** Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i weithwyr cyngori
- OPG605** Gwneud penderfyniadau. Canllaw Hawdd i'w Ddarllen

Mae'r llyfrynau i'w cael oddi ar y we hefyd:

[www.publicguardian.gov.uk](http://www.publicguardian.gov.uk)

Mae'r llyfrynau Gwneud Penderfyniadau ar gael yn Gymraeg, Saesneg a Braille. Mae llyfryn hawdd ei ddarllen ar gael hefyd a fersiwn sain. Cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i gael rhagor o wybodaeth.

Y Rhaglen Weithredu Gallu Meddyliol gyhoeddodd y llyfryn hwn. Fe'i ysgrifennwyd gan Turning Point, Scope a Mind sy'n aelodau o'r Gyngghair Gwneud Penderfyniadau.

- OPG606** Gwneud penderfyniadau. Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) (10.07)